**Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta**
**17 Hydref 2019 11 – 15.30**
**Gwesty'r Angel, Caerdydd**
**Crynodeb o'r cyfarfod**

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a chyflwynodd gyd-gadeiryddion y grŵp.

## 2. Trosolwg o'r Bil a diweddariad yn ei gylch

Hynt y Bil

Rhoddodd Llywodraeth Cymru drosolwg o'r Bil a diweddariad ynghylch ei statws presennol.

Diweddariad ynghylch cyfathrebu a'r fideo sy'n esbonio'r Bil

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch y cynllun cyfathrebu o safbwynt codi ymwybyddiaeth o'r Bil, a dywedodd wrth y grŵp fod llythyr newyddion misol am y Bil wedi'i lansio. Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau'r grŵp yn cael y cyfeiriad ebost ar gyfer cofrestru i gael y llythyr newyddion am y Bil, ynghyd â'r ddolen gyswllt ar gyfer y fideo sy'n esbonio'r Bil.

Nodwyd y gallai www.learning.wales.nhs.uk fod yn llwybr defnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth, a chytunodd Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd hwnnw.

Diweddariad ynghylch y Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch yr hyn a wnaed hyd yma gan y Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen eraill a grëwyd er mwyn hybu'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn rhannu'r adroddiad 'Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg sylfaenol, 2018'. Cafodd yr ymchwil dan sylw ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chyflawni drwy gyfrwng arolwg omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort ym mis Tachwedd 2018. Ei bwriad yw darparu llinell sylfaenol ar gyfer lefelau ymwybyddiaeth ac ar gyfer agweddau yng Nghymru tuag at gosbi plant yn gorfforol. Byddai diffiniadau o ddata a dulliau o gasglu data ynghylch niferoedd y digwyddiadau yr adroddir amdanynt wrth yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl casglu gwybodaeth sylfaenol at y dibenion hynny.

## 3. Cytuno ar gylch gwaith drafft

Cafodd y cylch gwaith drafft ei gyflwyno a chafwyd trafodaeth, yn benodol ynghylch enw'r grŵp (a fydd yn awr yn cael ei alw'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta).

Pwrpas ac aelodaeth y grŵp

Gofynnwyd am ychydig o newidiadau i bwrpas y grŵp, a nodwyd cynrychiolwyr ychwanegol ar ei gyfer hefyd. Cytunwyd ar gynnwys gweddill y papur yn ei gyfanrwydd. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn diwygio'r cylch gwaith, yn ei ddosbarthu gyda'r rhestr o gynrychiolwyr ac yn gofyn am gynrychiolwyr ychwanegol o'r sefydliadau a nodwyd.

**4. Sesiwn y prynhawn – Pwyntiau trafod allweddol**

Pwrpas sesiwn y prynhawn oedd rhoi cyfle i bob bwrdd drafod dau faes gwaith – Ehangu'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch amser iddo* a'r ddarpariaeth ar gyfer magu plant.

**5. Adborth gan y grwpiau gwaith**

Cyfarfu aelodau'r grŵp unwaith eto yn dilyn eu trafodaethau. Rhoddodd cynrychiolydd o bob grŵp adborth ynghylch rhai o'r pwyntiau allweddol a godwyd am y ddau faes gwaith. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun gwaith manwl ar gyfer y grŵp, a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd cyd-gadeiryddion y grŵp i drafod yr eitemau y dylid eu cynnwys yn y cynllun gwaith ac i ddosbarthu cynllun gwaith drafft i'r grŵp.

**6. Dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta**

Mae dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta wedi'u trefnu ar gyfer 2020, a bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon gwahoddiadau ar gyfer y cyfarfodydd.

**7. Sylwadau clo ac unrhyw fater arall**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu.